
# tafod elái

EBRILL 2026

Rhif 406

£1

## Croesawu'r Gwanwyn



tafod elái
Swyddogion
**Cadeirydd:** Helen Prosser
**GOLYGYDD Y MIS**
**GERWYN WILLIAMS**
**Trysorydd:**
Penri Williams

**Cysodi/ Dylunio:** Eirian Hughes

**Dosbarthwr:**
Colin Williams
029 2089 0040

Tafod Elái ar y we
www.tafodelai.cymru

Argraffwyr
EVAN PRINT
www.evanprint.co.uk

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

(Nid yw'r safbwyntiau yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol).

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
**24 Ebrill 2026**
at
**gol@tafodelai.cymru**

**Golygydd Mis Mai:**
Helen Prosser

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**
**i gael pris am unrhyw waith addurno**



# GOLYGYDDOL

Pleser oedd cael y cyfle i olygu'r rhifyn hwn, a chyfrannu at bapur sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal. Yn enedigol o ardal Pontyclun ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Llantrisant a Llanhari, mae'r profiad wedi bod yn un difyr iawn i mi yn bersonol. Mae gen i gof o weld y Tafod yn aml ar ddesgiau'r ysgol ac ar yr aelwyd. Mae'n teimlo fel cylch cyflawn, rywsut, i olygu papur a oedd yn rhan o'm plentyndod. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o'i ddatblygiad.

Mae'n hynod braf darllen straeon lleol a gweld bwrlwm y gymuned Gymraeg, a'r rôl bwysig sydd gan y papur wrth ei chynnal a hyrwyddo'r hyn sy'n digwydd yn lleol. Mae'r broses o olygu hefyd wedi dangos i mi gyfoeth ac amrywiaeth y gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr. O'r cyfle i gystadlu yn Eisteddfod Pontypridd, i ymuno â digwyddiadau llenyddol, gigiau byw a gweithdai ymarferol, mae rhywbeth at ddant pawb.

Gan mai rhifyn mis Mawrth yw hwn, Dydd Gŵyl Dewi sy'n hawlio ei le fel un o uchafbwyntiau'r calendr. Bu cyfle i ddathlu ym Mhontypridd, wrth i'r gymuned ddod ynghyd i nodi'r achlysur. Cafwyd rhaglen gerddorol arbennig gyda pherfformiadau gan ysgolion lleol, corau'r ardal a chantorion eraill. Roedd yn braf darllen am barhad ein traddodiadau lleol, megis gosod torch o gennin Pedr wrth gofgolofn Evan a James James. Dyna oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer clawr y rhifyn hwn. Diolch i Osian a'r Fenter am y llun hyfryd.

# Ymateb rhyngwladol i gofiant Rapa

**Martin Huws**



*Taid Alwyn, Thomas Harding Jones*

Roedd llawr cynta tafarn Gwaelod-y-garth yn llawn ar gyfer sesiwn holi ac ateb am gyfieithiad Alwyn Harding Jones o'i gofiant Cymraeg, Rapa. Martin Huws oedd yn holi a Dilwyn Young Jones yn darllen detholiad. Dywedodd Martin fod y tri'n byw o fewn deg drws i'w gilydd yn Ffynnon Taf a bod hanes taid Alwyn yn stori antur am ddewrder a gwytnwch morwr yn wyneb heriau a helbulon.

Nod y sesiwn, meddai Alwyn, oedd rhoi cyfle i bobol leol a thu hwnt, nad oedd yn gyfarwydd â'r cofiant gwreiddiol, glywed am stori ei daid, Thomas Harding Jones o Gaernarfon.

Pan oedd Alwyn ac Angharad ar wyliau yn Seland Newydd ddiwedd 2023 roedd wedi esbonio wrth gwpwl o Auckland fod ei daid wedi bod yno ganrif yn gynt a bod llun ohono o flaen Swyddfa'r Harbwr. Gofynnodd y cwpl a oedd fersiwn Saesneg o'r cofiant ar gael.

Hyd yn hyn mae'r ymateb rhyngwladol wedi bod yn addawol, meddai Alwyn, a'r mannau cychwyn oedd haelioni pobol yn Kansas, Portiwgal, Paris, a Tahiti. Yr Athro Emeritws Allan Hanson o Brifysgol Kansas roddodd arweiniad pan ddechreuodd Alwyn ymchwilio



*Ynys Rapa heddiw*

*Parhad ar dudalen 3*

# TONYREFAIL

**Gohebydd Lleol:**
**Helen Prosser**



*Côr y Dysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Tonyrefail*

**Cyngerdd Gŵyl Dewi**
Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant i ddathlu Gŵyl Dewi a chodi arian i'r eglwys. Ymhlith y cyfranwyr roedd Côr Merched Taf Elái, Côr Dysgwyr y Cymoedd, Côr Ysgol Cwmlai, Lucy Bromfield a Jennie Williams. Danny Grehan oedd wrth y llyw. Diolch i bawb am drefnu, cymryd rhan a chefnogi. Codwyd dros £600.

**Babi newydd**
Croeso cynnes i Griffin George Davey a anwyd ar 26 Ionawr i Richard Davey a Joanna Smith. Mae Mam-gu a Tad-cu, Peter a Steph Davey, wrth eu boddau gyda'r aelod newydd yn y teulu. Croeso i Donyrefail, Griffin.



*Griffin ar ei wyliau gyda'r teulu yng Nghernyw.*

**Parc Sglefrio**
Mae Parc Sglefrio gyda ni yn Nhonyrefail ers dwy flynedd ac mae'n adnodd sy'n brysur iawn - gan blant gyda'u teuluoedd, gan bobl ifainc yn eu harddegau a gan oedolion. A'r newyddion da yw bod y pwyllgor nawr wedi sicrhau £90,000 i ychwanegu estyniad a gosod goleuadau. Daw'r arian gan Lywodraeth Cymru. Diolch yn fawr i Mick Antoniw a'i staff am eu cymorth wrth lunio'r cais. Llongyfarchiadau i bawb.

## Ymateb rhyngwladol i gofiant Rapa

*Parhad*

i ffordd o fyw pobol ynys Rapa yn y Môr Tawel.

Yr Athro Emeritws Christian Ghasarian o Sefydliad Ethnoleg Prifysgol Neuchâtel yn y Swistir - ond sy' wedi ymddeol ym Mhortiwgal - roddodd fanylion helaeth am hanes ymwelwyr i'r ynys fel Vancouver a'r cenhadwr o Gymro, John Davies. Ffotograffydd o Baris, Paul Béjannin, dynnodd lun y clawr a rhai o'r lluniau tu fewn i'r gyfrol. Takurua Parent, ymwelodd â chartre Alwyn ac Angharad yn ystod mis Medi 2024, roddodd wybodaeth iddo am yr ynys yn yr oes fodern. Noson ddifyr ac addysgiadol.


Y CYMRO

Tanysgrifiwch i'r Cymro

Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy'r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.

Cysylltwch gyda **tanysgrifio@ycymro.cymru** i drefnu




# PONTYPRIDD

**Gohebydd Lleol:**
**Menna Lewis**


Cawsom ddigon o gyfle i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yma ym Mhontypridd. Ar y nos Wener, cawsom noson wych yng Nghlwb y bont, gyda Gwilym Bowen Rhys yn diddanu.

Ar fore Sadwrn, roedd rhedwyr y Park Run yn eu coch yn mwynhau'r dathlu.

Ar ddydd Sul, yn y band stand ym Mharc Ynysangharad, roedd corau o ysgolion lleol, unawdwyr a Chôr Cwm Rhondda a Chôr Godre'r Garth yn ymuno i ganu'r anthem ger cofgolofn Evan a James James. Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu a gobeithio daw hyn yn ddigwyddiad blynyddol. Diolch yn arbennig hefyd i griw gweithgar Merched y Wawr a gynhaliodd gaffi yng Nghalon Taf a chodi dros £400 i Eisteddfod Pontypridd.



*Gwilym Bowen Rhys yn diddanu*



*Mari Miles*

**Llongyfarchiadau-** i Tom Miles a Siân ar enedigaeth merch fach, Mari

**Cangen Merched y Wawr**
Cynhaliwyd noson dathlu gŵyl Ddewi yng ngwesty'r Blueberry. Bwyd da a chwmni hwyliog. Mis nesaf, bydd Cari Bailyes yn cynnal noson grefftau - printio leino.

**Croeso i aelodau hen a newydd ymuno.**



*Dathlu gŵyl Ddewi yng ngwesty'r Blueberry*

Penblwydd hapus arbennig i Eleri Wyn,Coedpenmaen . Gobeithio i ti fwynhau'r gwyliau hyfryd yn yr Eidal.

Mae'n siŵr hefyd i nifer ohonom weld Janet Caffery ar raglen Prue Leith yn ddiweddar. Am hysbyseb arbennig i fwyty Janets ac i Bontypridd. Roedd hi'n amlwg fod Prue wrth ei bodd gyda choginio arbennig Janet.

Pob dymuniad da i Dorothy Todd, Graigwen, ar ôl derbyn triniaeth ar ei llygaid yn ddiweddar. Gobeithio bod chi'n gwella'n dda.

**Clwb llyfrau**
Y nofel dan sylw'r mis hwn oedd Bron y Nant gan Siân Rees. 'Nofel sy'n plethu'r gorffennol, y presennol a'r goruwchnaturiol' meddai'r broliant. Cafwyd trafodaeth ddiddorol gydag ymatebion amrywiol i'r stori a'r cymeriadau.
Os oes diddordeb gyda chi mewn darllen a thrafod llyfrau, ymunwch gyda ni, y trydydd dydd Mercher bob mis, yn llyfrgell Llys Cadwyn.

**Eisteddfodau**
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu wrthi'n cystadlu yn Eisteddfodau cylch a sir yr Urdd. Pob lwc i chi gyd! A diolch hefyd i'r athrawon a hyfforddwyr sydd wrthi'n ddyfal yn eich cefnogi.

**O fanc i gaffi**
Mae cais cynllunio ar y gweill i drawsnewid hen fanc Barclays i fod yn gaffi a hwb i'r gymuned. Edrychwn mlaen at gael paned yno.

**Gohebwyr mis Mai - Dave a Margaret Francis**



# Pwy wyt ti?



*Trish Hegarty*

**Cyflwyna dy hun mewn pum brawddeg**
Dw i'n byw ym Mhontypridd ers blynyddoedd bellach, ond dw i'n dod o Drelái yn wreiddiol.

Gofynnais i rai ffrindiau agos am help gyda'r cwestiwn hwn (ychydig o risg) a dywedon nhw fy mod i'n fywiog, siaradus, cystadleuol ac yn ddi-flewyn-ar-dafod. Dyna ffordd i ddysgu idiom newydd!
Pan nad ydw i'n darllen gwefannau newyddion, dw i'n hoffi darllen nofelau trosedd, cerdded, garddio a chwrdd â ffrindiau dros goffi neu wydraid o win.
Sioeau cerdd yw fy mhleser euog. Fy ffefryn ar hyn o bryd yw Hamilton.

O! Ac un peth arall. Dw i'n dwlu ar gathod.

**Sut wyt ti wedi dysgu Cymraeg?**
Flynyddoedd yn ôl, pan o'n i'n ddisgybl yn yr ysgol gynradd, ro'n i'n ffodus o gael athro Cymraeg ysbrydoledig o'r enw Gwilym Roberts. Dw i'n dal i gofio ei wersi a'r hwyl yn y dosbarth.

Dw i wedi gwneud sawl ymgais i ddysgu'r iaith dros y blynyddoedd. Yn 2018, wrth feddwl am ymddeol, ffoniais ganolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg ac erbyn yr wythnos ganlynol, ro'n i wedi cofrestru ar gwrs dwys.

Roedd yn waith caled ar ôl bwlch mor fawr, ond mae wedi bod yn brofiad gwych. Dw i mor ddiolchgar i'm tiwtoriaid am eu hamynedd a'u cefnogaeth, ac i'm cyd-ddysgwyr hefyd - mae llawer ohonyn nhw wedi dod yn ffrindiau da. Dw i'n dal i fynd i ddosbarthiadau wythnosol ac er bod yr wynebau wedi newid, mae'r hwyl a'r her yn parhau.

**Ble rwyt ti'n cael cyfle i ddefnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**
Gwirfoddolais yn Eisteddfod Pontypridd 2024. Roedd braidd yn frawychus ac yn dipyn o antur, gan nad oedd llawer o Eisteddfodwyr yn sylwi ar fy mathodyn Dysgwr! Mewn un digwyddiad, llwyddais i gwrdd â'r athro a wnaeth gymaint o argraff arna i yn y gorffennol.  Ar yr un pryd, ymunais â Chôr y Dysgwyr ym Mhontypridd, ac rydym yn cyfarfod bob dydd Iau.

Dw i hefyd yn mwynhau mynd i ddramâu a chyngherddau yn Theatr y Soar, Garth Olwg ac Acapela. Dw i'n ymarfer fy Nghymraeg mor aml â phosib yn yr Hen Lyfrgell, ac yn ffan mawr o 'Sadwrn Siarad' Dysgu Cymraeg Morgannwg.

**Ble arall bydd pobl yn ffeindio Trish Hegarty yn yr ardal, e.e. caffis, siopau?**

Ar foreau Sul, fe welwch chi fi yn Eglwys Sant Luc, Rhydyfelin. Dw i hefyd yn mwynhau cerdded ym mharc gwledig Barry Sidings, Parc Ynysangharad ac ar hyd Llwybr Taf.



# Twll yn y Bont

## Gwen Griffiths



Wrth wrando ar raglen yn y gyfres 'Am Dro', mi glywais yr hen chwedl, mai pwrpas y tyllau yn ein pont oedd i adael dŵr y llifogydd lifo drwyddynt.

Ond mae'r gwir yn dangos athrylith adeiladwr y bont, sef William Edwards. Mab fferm oedd ef, wedi'i eni yn 1719 ym mhlwyf Eglwysilan. Dysgodd ei hun i adeiladu gyda cherrig – sgìl a arweiniodd at adeiladu pontydd. Yn ei arddegau, sylwodd ar waith gweithwyr yn adeiladu waliau cerrig sychion. Datblygodd ei sgiliau fel saer maen ac fe ddaeth yn adnabyddus yn ei blwyf.

Wedi ennill cytundeb i adeiladu pont yn 1746, aeth ati yn frwd. Cynlluniodd yn wreiddiol bont tri bwa, gan ofalu bod pob carreg wedi ei siapio'n gain. Wedi'i gorffen, daeth trychineb - llifogydd yn cario coed mawr i lawr yr afon a difa'r bont. Yn sgil hyn, aeth ati eto, y tro hwn i godi pont un bwa gan sicrhau bod yr ategwaith ar y ddwy lan yn gadarn. Er gwaethaf harddwch y bont un bwa, chwalwyd hon hefyd yn 1751.

Gwelodd Edwards yr angen i ysgafnhau'r bwa ar y ddau ategwaith. Mae'r cylchoedd hyn yn datrys y broblem ac yn rhoi i Bontypridd waith celf cyhoeddus hynod. Ceir tyllau mewn pontydd eraill hefyd - mewn pontydd tri bwa fel Pont Cenarth dros y Teifi. Fe'i hadeiladwyd gan David Edwards, mab William, a ddysgodd y grefft wrth ei dad.

Wrth grwydro Gogledd Profens yn ardal Vacleuse, daeth Gwyn a finnau ar draws pont arall oedd yn hynod iawn. Pont Rufeinig ger Bonnieux o'r enw Pont Julien, dros 2,000 oed. Roedd y bont yn croesi dyffryn dros afon Calavon (sylwch ar yr enw Celtaidd). Yn yr haf mae'r afon yn ffrwd fach ddiniwed, ond yn wyllt yn y gaeaf. Mae'r bont tri bwa hon yn dal i sefyll yn gadarn hyd heddiw.

Hir oes i'n pont ni.



*Pont-y-Prydd   William Edwards 1756*



*Pont Cenarth  David Edwards 1787*



*Pont Julien - 3edd ganrif*

# Cyfle ar Y Deis i Aaron ac Alun




**Bu'r ffrindiau Alun Reynolds ac Aaron Daye, o ardaloedd Pontypridd a Phontyclun, yn cystadlu ar raglen gwis Y Deis ar S4C yn ddiweddar. Dyma glywed gan Aaron am ei brofiad.**

**Sut ddaeth y cyfle i gymryd rhan yn rhaglen y Deis ar S4C?**
Cysylltodd Alun â fi ar ôl iddo holi am y cyfle i ymuno â'r rhaglen. Gan fy mod i'n cynnal cwis yn y Pipeworks ym Mhontyclun bob nos Fawrth, roedd e'n meddwl y byddwn i'n berson addas i gymryd rhan.

**Sut brofiad oedd recordio yn y stiwdio?**
Roedd y diwrnod yn ardderchog - ces i lawer o hwyl! Roedd hi'n braf sgwrsio â'r cystadleuwyr eraill, ac roedd staff y rhaglen yn anhygoel. Symudodd popeth yn eithaf cyflym hefyd, felly gwnaeth hynny helpu.

**Oeddet ti'n teimlo'n nerfus yn ystod recordio?**
Nac o'n. Dw i wedi ffilmio ar gyfer S4C a Hansh o'r blaen, felly ro'n i'n eithaf hyderus, ac yn mwynhau'r profiad.

**Wnest ti baratoi o flaen llaw ar gyfer y cwis mewn unrhyw ffordd?**
Gan fy mod i'n cynnal cwis bob wythnos, ro'n i'n ceisio cofio'r cwestiynau. Wrth wylio'r lleill yn ffilmio o'r ystafell werdd, ro'n i'n ateb llawer o'r cwestiynau'n gywir. Er, pan ddaeth fy nhro i ateb, ces i gwestiynau do'n i ddim yn gwybod atebion iddyn nhw!

**Pe bai'r cyfle yn codi eto, fyddet ti'n cymryd rhan mewn rhaglen gwis arall?**

110%! Pe bai'r cyfle'n codi eto, byddwn i bendant yn dweud ie. Ac os cewch chi'r cyfle rywdro, dylech chi fynd amdani! Cewch chi lawer o hwyl.

**Darlledwyd y bennod ar 25 Mawrth - mae ar gael i'w gwylio'n ôl ar blatfformau ffrydio**




*Alun Reynolds ac Aaron Daye*

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Penri Williams




**Taith Sian Harries i gopa Kilimanjaro**

Mae Sian Harries wedi bod ar daith anhygoel i ben Mynydd Kilimanjaro. Eleni, mae Ymddiriedolaeth y Brenin Cymru yn dathlu 50 mlynedd ac er mwyn codi arian i'r elusen trefnwyd taith i ben mynydd uchaf cyfandir Affrica i gyrraedd yno ar ddydd Gŵyl Dewi. Roedd Sian wedi elwa o gynllun gwirfoddoli'r elusen 30 mlynedd yn ôl ac er mwyn dangos ei gwerthfawrogiad mae wedi codi dros £10,000 i'r elusen drwy noddwyr. **Gallwch ei noddi ar** https://www.justgiving.com/page/sian-harries-3.

## Clwb y Dwrlyn



*Y Prifardd Gwynfor Dafydd*

Y Prifardd Gwynfor Dafydd oedd y gŵr gwadd yng Nghinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn ddechrau mis Mawrth yn De Courcey's Pentyrch. Wrth ei gyflwyno cafwyd braslun o'i yrfa lwyddiannus gan Ifan Roberts, y Cadeirydd. Bu Gwynfor yn enillydd Coron Eisteddfodau'r Urdd yn y Fflint 2016 a Phenybont 2017 ac yna yn 2024 ef oedd enillydd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Llanhari astudiodd lenyddiaeth Almaeneg a Sbaeneg ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn dilyn cyfnod yn gweithio i'r BBC mae nawr yn astudio i fod yn far-gyfreithiwr.

Wrth drafod cerdd y Goron, bu'n sôn am y dylanwadau arno ac am y cyngor gafodd gan Menna Elfyn a gymharodd ysgrifennu mewn cynghanedd fel nofio mewn pwll nofio gan fynd nôl a mlaen tra bod barddoni yn y mesur rhydd fel nofio yn y môr sydd â'i ehangder yn frawychus ond yn llawn potensial hefyd! Testun cystadleuaeth y Goron oedd 'Atgof' a chawsom ddyfyniadau a chefndir rhannau o'r gerdd. 'Olwyn' oedd y soned gyntaf sy'n disgrifio dylanwad ei dadcu a'i fro a'r dirywiad ar ôl cau'r pyllau glo. 12.8% sef y canran o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf oedd teitl cerdd tafod yn y boch am yr iaith Gymraeg. Cawsom gyfle hefyd i glywed cerdd a ysgrifennwyd i Bragdy'r Beirdd ar nos Fawrth yr Eisteddfod oedd yn cwestiynu a ddylai fod wedi ennill y goron o gwbl ac yntau'n aelod o'r Pwyllgor Llên a'i fam yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith!

Roedd pawb wedi gwerthfawrogi'r atgofion am Eisteddfod Pontypridd 2024 ac am gyflwyniad Gwynfor Dafydd o'i gerdd fuddugol.

# CLWB RYGBI PONTYPRIDD

Guto Davies

Digon ysbeidiol fu'r gemau cystadleuol i Ponty dros fisoedd Chwefror a Mawrth, hynny yn bennaf gan nad oedd lle i ornestau Uwch-Gynghrair Admiral ar Sadyrnau cystadleuaeth ryngwladol y Chwe Gwlad. Dros y saith penwythnos oedd ar gael ar y calendr, dim ond pedair gêm chwaraeodd Pontypridd a dim ond un o'r rheiny ar eu tomen eu hunain.

Yn ystod mis Chwefror roedd gan Ponty ddwy ornest anodd yng nghymoedd Gwent, yn erbyn Trecelyn a Cross Keys, a llwyddwyd i ddychwelyd gyda dwy fuddugoliaeth pwynt-bonws werthfawr, hynny wedi brwydrau corfforol digyfaddawd, yn ôl y disgwyl.

Ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Mawrth, Castell-nedd oedd yr ymwelwyr i Heol Sardis, gyda'r 'crysau duon Cymreig' eisoes wedi trechu Pontypridd ddwywaith lawr ar y Gnoll yn gynharach yn y tymor, yn y cwpan a'r gynghrair. Dial am y ddwy golled hynny oedd y nod i Bontypridd a dyna a wnaed, wedi gornest gyffrous, gyda'r tîm cartref yn fuddugol o 47 pwynt i 35. Sgoriwyd deuddeg cais i gyd rhwng y ddau dîm mewn gwledd ar gyfer y dyrfa fawr oedd yn bresennol.



*Tipyn o gêm - Ponty yn erbyn Castell-nedd*

Taith bell tua'r gorllewin oedd tasg olaf Pontypridd ym mis Mawrth, i wynebu Crwydriaid Llanelli ar faes y Strade newydd. Roedd hon yn ornest gorfforol, gyffrous arall, ac wedi bod ar ei hôl hi o 31 pwynt i 15 ar yr egwyl, Ponty gafodd y gorau o'r ail hanner i ennill o 31 pwynt i 34 gyda phum cais wedi'u sgorio i hawlio pwynt bonws gwerthfawr arall.

Mae carfan Ponty, er gwaethaf nifer fawr o anafiadau, wedi dangos cryn gymeriad a gwytnwch i ddod drwy fisoedd Chwefror a Mawrth gyda record 100% o bedair buddugoliaeth gyda phwyntiau bonws, ac i aros yn y ras am goron yr Uwch-Gynghrair.

# Merched y Wawr
# Cangen y Garth

Nia Williams

## Cyfarfod mis Chwefror: Llio James - y gwehydd llaw o Geredigion

Pa mor freintiedig oedden ni, Ferched y Wawr Y Garth i gael mwynhau cwmni'r anhygoel Llio James, p'nawn Mercher, Chwefror y 25ain? Gwehydd llaw, arbennig o dalentog o Geredigion, sy' bellach yn gweithio allan o'i stwidio yn Sblott yng Nghaerdydd.

Siaradodd Llio yn rhwydd, gan ddweud ei hanes o'r cychwyn oll hyd at heddiw. Cafodd Llio ei geni yn Nhalybont. Pentre bach gyda chwta 700 o bobl a dwy felin wlân. Ond cyn dyddiau Llio! Mae creadigaethau Llio mor hardd a chwaethus! Aeth Llio i astudio tecstilau yng ngholeg Celf Manceinion. Wrth sôn am ei hanes, dywedodd, *'Beth daniodd fi oedd sylweddoli pa mor anferth ydy effaith tecstilau ar ein bywydau bob dydd! Ni'n cael ein geni a'n cwtsio mewn defnydd yn syth'.*



*Llio gydag un o'r cynlluniau.*

Ar ôl Manceinion, aeth Llio i Efrog Newydd i ennill profiad mewn stiwdio yn dylunio a gwehyddu plastig i greu defnydd i orchuddio ffenestri. Doedd gwehyddu plastig ddim iddi hi - nac i'w dwylo, ond cafodd bethmwbreth o brofiad. Dychwelodd adre i Gymru o America i weithio mewn Canolfan Dreftadaeth am ychydig cyn mynd nôl i fyd addysg a pharhau i astudio ym Mhrifysgol Bath Spa. Cafodd hi brofiad wedyn o weithio i un o gynhyrchwyr mawr tartan yr Alban yn Perth cyn dod 'nôl adre.

Cewch weld ei stori yn llawn ar ei gwefan - Llio James. Yno hefyd cewch weld enghreifftiau o'i gwaith cywrain, a chyfle i brynu. Diolch Llio am roi o'th amser i ni, a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol!

**Manylion Llio:**

**Y Stwidio - Carlisle Street, Splott CF24 2PE**

**Rhif ffôn symudol 07791 623 992,**

**Gwefan www.lliojames.com**



*Gwehydd llaw cyfoes sy'n cwmpasu cynlluniau traddodiadol i'n bywyd ni heddiw*

# CREIGIAU

Gohebydd y Mis:
Nia Williams



*Anwen Robins - enillydd balch tlws Dewi Sant, Clwb Golff Creigiau*

**Cystadleuaeth Dydd Gŵyl Ddewi y Fets**

Llongyfarchiadau anferth Anwen Robins ar ennill tlws Dewi Sant! Cystadleuaeth dydd Gŵyl Ddewi y Fets oedd hi - a daeth Anwen i'r brig! Gwych iawn! Ymateb Anwen - 'sioc a ffliwcen!'; ymateb pawb arall - 'a win is a win'! I fyny bo'r nod!

**Clwb Gwawr Creigiau**

Ar ôl taith gerdded a bwyd yn y Kings ym Mhentyrch fis diwethaf, ein digwyddiad nesaf fydd Pitch and Putt a bwyd yng nghlwb golff Creigiau. Ym mis Mai byddwn yn mynd i weld Pwdin Reis yn Yr Olwg.

Croeso i bawb ymuno gyda ni. Am fanylion pellach e-bostiwch telerij@yahoo.com

**Eisteddfod Ddawns**

Llongyfarchiadau mawr i grŵp dawnsio gwerin blwyddyn 10 ac o dan 19 oed am lwyddo yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Ysgol Fitzalan.

Da iawn Nia Holmes a Grace Evans o flwyddyn 13 ac i Heti Ireland o flwyddyn 11 (arferai fyw yng Nghreigiau).

Diolch enfawr i Mr Lake am barhau i gefnogi'r gystadleuaeth yma.

# O DAN YR WYNEB
## Martin Huws




**Martin Huws sy'n holi Meinir Pierce Jones, enillydd Gwobr Daniel Owen 2022, am ei nofel newydd, *To*.**

**Beth yw eich gwaith?**
Awdur ar ei liwt ei hun.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Cyfieithu a golygu.

**O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw nawr?**
Dwi'n byw yn y tŷ lle ces i fy magu gerllaw Nefyn yn Llŷn. Prynodd fy ngŵr a finna'r tŷ fferm pan oedd fy rhieni'n ymddeol.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, yn fawr iawn. Mi faswn i'n gwneud cwrs eto ar hanner gair!

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Mi fu athrawon yn ddylanwad mawr arna i.
Mi ges i fagwraeth braf ar y cyfan ac roedd Mam a Dad bob amser yn gefnogol, a Mam mewn byd mawr efo sgwennu ac yn awdur storïau byrion ei hun.

**Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?**
Dwi wedi sgrifennu tua dwsin o lyfrau i blant, yn cynnwys Viva Cymro, Y Cwestiwn Mawr, Cnwcyn ac Un o Fil. Fy nofelau eraill i oedolion ydi Y Gongol Felys, Lili dan yr Eira a Capten.

**Beth sy'n eich ysbrydoli?**
Mae'n gyfuniad o'r awydd i ddweud stori, cymeriadau sy'n ysu am gael byw, a hoffter at iaith.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r nofel? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?**
Mi fues i'n gweithio fel swyddog datblygu yn Amgueddfa Forwrol Llŷn am bron i wyth mlynedd, ac mae cefndir y stori'n deillio o'r cyfnod hwnnw.
Yr her fwyaf oedd adrodd yr hanes drwy enau'r prif gymeriad, Tonwen, Tonwen Neli Tomos, neu To i'w ffrindiau. Ro'n i eisio'r her o ysgrifennu stori lawn hiwmor, ond mae hiwmor yn beth mor bersonol a cwyrci, dydi, felly roedd honno'n her.




*Gerwyn Wiliams o Wasg y Bwthyn yn holi Meinir yn Llety Arall, Caernarfon*

**Beth sy' bwysicach, cymeriad neu blot?**
Fy hun, dwi'n hoffi sgrifennu ffuglen sy'n cynnwys elfen naratif gref neu stori. Ond mae'r cymeriadau'n hollol ganolog i'r stori honno - cymeriadau diddorol, credadwy, aml- haenog sy'n tynnu'r darllenydd i mewn i'w byd.

**Beth oedd proses sgrifennu To? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Ar ôl cael y syniad ar gyfer y nofel, a gwneud rhywfaint o waith ymchwil, mae angen hel nerth i ddechrau sgrifennu achos mae llunio nofel yn waith anodd a digon unig, er mai nofel gymharol fer ydi hon.

Mi sgwennais i 10,000 o eiriau ac wedyn aeth yn nos arna i, a dyma roi'r gora iddi. Ond tra oeddwn i ffwrdd ar wyliau yn Seland Newydd flwyddyn yn ôl, ces i gyfnod o fod yn effro bob nos bron am rai oriau. Yn ystod yr oriau hynny ces i ddigon o amser i feddwl am y stori, a chyn troi am adra ro'n i wedi penderfynu ailafael ynddi. Ro'n i wrth fy modd pan ddechreuodd y stori lifo.

**Mae'r nofel yn 'ddwys-ddoniol'. Ym mha ffordd?**
Dwi'n ei disgrifio fel stori lawn hiwmor sy'n delio â phwnc dwys, sef galar. Mi faswn i'n dychmygu y byddai darllenydd yn chwerthin, giglan a cholli deigryn yn ystod gwahanol rannau o'r stori.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhyngddi a Capten, enillydd Gwobr Daniel Owen?**
Nofel gyfoes ydi To, er bod prosiect treftadaeth i arbed hen adeilad hanesyddol yn greiddiol i'r stori. Roedd Capten yn nofel hanes wedi'i lleoli'n bennaf yn Llŷn ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a bu'n rhaid i mi wneud llawer o ymchwil cyn y gallwn ei hysgrifennu hi.

*Parhad ar dudalen 11*

# O Dan yr Wyneb
## (parhad)

**Beth sy'n gwneud stori dda?**
I mi, awdur sy'n eich tynnu i mewn i fyd y stori, cymeriadau sy'n argyhoeddi'n llwyr a stori sy'n cael ei hadrodd yn dda. Pan fydd gen i nofel dda ar fynd, byddaf yn teimlo fy mod i'n byw mewn dau fyd, fy myd i a byd y llyfr.

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
Sgrifennu yn y bore, mynd am dro wedyn yn y prynhawn, adolygu a gwneud nodiadau ar gyfer y bore wedyn fin nos.

**Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?**
Mae'r nofel Gymraeg yn cael cyfnod aur, ac amrywiaeth ryfeddol o nofelau'n cael eu cyhoeddi yn perthyn i sawl genre. Mae talent newydd yn dod i'r amlwg yn gyson i'n diddanu a'n syfrdanu fel Llŷr Titus, Kayley Roberts a Gwenllian Ellis.

**Pwy yw eich hoff nofelydd? Pam?**
Dwi'n mynd i ddweud Daniel Owen. Ailddarllenais ei holl waith flwyddyn neu ddwy yn ôl a gwirioni o'r newydd ar ei ddawn fel storïwr, portreadwr cymeriadau, dychanwr a deialogwr.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Darllenwch hynny allwch chi. Ac wedyn ffeindiwch eich llais eich hun.

**Beth sy' ar y gweill?**
Dwi wrthi'n ymchwilio ar gyfer nofel hanes wedi'i gosod yng nghyfnod y Sioriaid. Mae'r stori gen i yn fy mhen, ac unwaith y bydda i wedi casglu'r deunyddiau at ei gilydd a hel nerth, mi fydda i'n cychwyn arni.

**Dolen Ffolio:**

https://www.ffolio.cymru/products/9781917006378

To, Gwasg y Bwthyn, £12






# EFAIL ISAF

**Gohebydd Lleol:**
**Geraint Rees**
geraintrees@hotmail.com

Atgyfodi Nosweithiau Twrw Taf – Rhyddid yn cefnogi Daniel Lloyd a Mr Pinc

Un o bleserau 2026 hyd yn hyn fu gweld ail-gychwyn nosweithiau Twrw Taf wedi rhai blynyddoedd tawel.  O'n bandiau ifanc lleol, fe berfformiodd Lan Stâr gyda Brigyn rhai misoedd yn ôl.  Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cyfle Rhyddid oedd hi i chwarae gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc.   Dyma adroddiad Mari Roberts, prif leisydd Rhyddid, am eu noson lwyddiannus.

"Ar yr wythfed ar hugain o Chwefror, fe wnaethom ni fel band, sef Mari Roberts (canu), Elis Jones (drymiau) Branwen Parker (Piano) ac Anya Edwards (Gitâr fas) chwarae gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc mewn gig Twrw Taf yn Theatr Gartholwg. Roedden ni hyd yn oed wedi ysgrifennu cân newydd ar gyfer y gig! Chwaraeon ni 5 cân i gyd. Cawson ni lun gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc i orffen ac roedden nhw mor glên. Diolch yn fawr iawn i bawb oedd wedi dod, diolch i'r fenter am gael ni, roedd yn gig wych ac roedd pawb wedi mwynhau!"



*Y Band Rhyddid gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc*

## Marwolaeth Arthur Garnon

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu farw un o ddarllenwyr ffyddlon y Tafod, Arthur Garnon o Heol y Ffynnon, Efail Isaf.  Yn wreiddiol o Sir Benfro, fe ddaeth Arthur tua'r dwyrain gyda'i olygon ar fod yn athro ysgol, cyn sylweddoli mai nid honno oedd yr yrfa iddo fe.  Aeth ati i gymhwyso fel peiriannydd gan dreulio gweddill ei fywyd yn ymhél â pheiriannau o bob math.  Mae e'n gadael Marilyn ei weddw, fu'n brifathrawes ysgol gynradd Llwyn Crwn yn y Beddau.  Estynnwn ein cydymdeimlad iddi hi, ac i'w gydnabod.

**Capel y Tabernacl**

Bu'r mis diwethaf yn gyfnod prysur unwaith eto o gasglu eitemau ar gyfer teuluoedd ac unigolion anghenus yn lleol, ynghyd â chasglu wyau Pasg i bobl ifanc sydd wedi gadael y system gofal yn lleol. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

**Y Suliau Nesaf -** oedfaon am 11 y bore, ond am y trydydd Sul yn y mis pan cynhelir sesiwn i bob oed yn y prynhawn

| | |
|---|---|
| **Mawrth 29** | Y Parchg Casi Jones Bangor |
| **Ebrill 5** | Sul y Pasg, Geraint Rees |
| **12** | Y Parchg Aled Edwards |
| **19** | Sesiwn yn y prynhawn gyda Heulyn Rees |
| **26** | Elinor Wyn Reynolds |
| **Mai 3** | Geraint Rees |
| **10** | Sul Cymorth Cristnogol |



**Band yn y Stand 01.03.26**
Ar Fawrth y 1af, daeth Bandstand Parc Ynysangharad yn fyw â cherddoriaeth Cymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd perfformiadau rhagorol gan Ysgolion Garth Olwg, Evan James, Castellau ac Awel Taf, ynghyd â Chôr Cymunedol Pontypridd, Côr Godre'r Garth, Côr Cwm Rhondda a Chôr Glan Rhondda. Ymunodd Elen a Huw, Bethany Powell a Gwilym Bowen Rhys i gwblhau'r rhaglen gerddorol arbennig.

Diolch mawr i Ferched y Wawr Pontypridd am eu cefnogaeth ac am ddarparu coffi, te a theisennau blasus yng Nghanolfan Calon Taf. Llwyddon nhw i godi £400 tuag at Eisteddfod Pontypridd, sy'n gyfraniad gwerthfawr iawn.

Roedd diweddglo'r digwyddiad yr un mor ystyrlon, gyda'r traddodiad o osod torch ar gofeb Evan a James James yn cael ei adfywio ar Ddydd Gŵyl Dewi. Diolch i aelodau ifanc Twmiaid Tabernacl Efail Isaf am greu'r torchau o gennin Pedr ar gyfer yr achlysur. Gorffennwyd y diwrnod drwy gyd-ganu'r anthem o amgylch y gofeb dan arweiniad Gwilym Bowen Rhys.



*Torch*

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at y digwyddiad nesaf!

**O Benderyn i Bontyclun - Teithio trwy ddiwylliant Rhondda Cynon Taf**
Mae'n bleser mawr cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect newydd o'r enw *O Benderyn i Bontyclun - Teithio trwy ddiwylliant Rhondda Cynon Taf*. Bydd y prosiect hwn yn ein galluogi i ddathlu hanes, diwylliant a thirwedd unigryw ein cymunedau, gan greu cyfleoedd newydd i bobl leol gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol ac addysgol.

Mae'r gefnogaeth hon yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at brosiectau sy'n cryfhau cymunedau ledled Cymru.



*Y Bandstand*

Bydd y cyllid yn ein helpu i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau, gweithdai a deunyddiau sy'n cysylltu pobl â straeon a threftadaeth y sir. Ein nod yw rhoi'r cyfle i bobl ddysgu am hanes a diwylliant lleol a chreu profiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gyda nhw.

Rydym yn edrych ymlaen at rannu mwy o fanylion yn fuan ac at weld y prosiect yn tyfu o wythnos i wythnos.



*Côr Cymunedol Pontypridd*

# CAPEL BETHLEHEM
## Gwaelod-y-Garth

### Rhodri Gwynn Jones



Tydw'i ddim yn hanesydd nac yn archifydd, ond, rhaid cyfaddef, 'rydw i yn hoff o chwilota!

Ac fel y gwyddoch chwi, cefais gyfle yn 2023 i groniclo peth o hanes Capel Bethlehem, wrth i ni ddathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol.

Yn ddiweddar daeth dogfennau i'r golwg a fydd, gobeithio, yn ychwanegiad teilwng a diddorol at yr hyn a gyhoeddwyd eisoes yn 2023.

Ynghanol y copïau gwerthfawr o ddetholiadau'r Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn flynyddol ym Methlehem ar ddydd Gwener y Groglith, 'roedd yna lyfr Cadw Cofnodion gyda'r teitl "Church Memes" ar ei glawr; Cofrestr Bedyddiadau a Phriodasau; a hefyd lyfryn a gynhwysai "lythyrau trosglwyddo aelodau" i gapeli eraill.

Mae yna gyfoeth yn y rhaglenni Cymanfaoedd Canu yn unig, ac er nad yn gyflawn o bell ffordd, mae modd dilyn hynt a helynt rhai o'r "Cymanfaoedd coll" trwy ddefnyddio'r casgliad o gylchgronau a phapurau newydd sydd wedi eu digideiddio, ac ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.


Hyd yma, hanes Cymanfa1893 (y "bumed") yw'r un gynharaf i'w chofnodi yn "Y Tyst" ["YT"], ac fel y nodir yn yr adroddiad, **dyma'r tro cyntaf i gyfarfod plant gael ei gynnwys fel rhan o'r Gymanfa.**

'Roedd Capel Bronllwyn, Pentyrch yn rhan o'r criw erbyn 1894, ac, er nad yw wedi ei argraffu ar glawr Detholiad 1895, [YT 26 Ebrill] **'roedd un capel ychwanegol arall yn rhan o'r Gymanfa erbyn hynny, sef Senghennydd.**

Fe edrydd y detholiadau hyn drwy'r degawdau eu storïau eu hunain am y newid cymdeithasol yn y rhan yma o Gymru, gyda'r rhestr o'r capeli (y noddwyr) yn diflannu, nes o'r diwedd i'r Gymanfa ei hun hefyd ddiflannu o Fethlehem wedi Cymanfa rhif 103 yn y flwyddyn 1991. **A phwy feddyliech oedd yr Arweinydd olaf yn y gyfres yma - neb llai nag Arweinydd presennol y Capel - Delwyn Sion!**


Fe gynhaliwyd Cymanfaoedd Plant yn ystod cyfnod Gŵyl Ddewi am ychydig wedi hynny, a hefyd ar achlysuron arbennig, megis dathlu'r organ newydd yn 2011, ac fel rhan o'r dathliadau 150 yn 2023.

A hyd y gwn i, **y cyntaf o blith aelodau Bethlehem i arwain y Gymanfa oedd Mr John Charles Davies,** a ddechreuodd ar y gwaith



yw cael cyfarfod o'r fath yn fuan eto.—*Un oedd yno.*

BETHLEHEM, PENTYRCH.—Cynaliwyd y bumed Gymanfa Gerddorol perthynol i eglwysi Annibynol y Groeswen, Nantgarw, Glandwr, Watford, a Bethlehem yn y lle uchod ddydd Gwener y Groglith, dan arweiniad Mr T. Richards, Pontycymer. Llywyddwyd cyfarfod y boreu gan Mr Isaac Thomas, Nantgarw; y prydnawn, gan Mr John Jenkins, Nantgarw; a'r hwyr gan Mr J. Millward, Gwaelodygarth. Dyma y tro cyntaf i ni gael cyfarfod i'r plant, a throdd allan yn llwyddiant hollol. Hyderwn y gwna y pwyllgor ofalu am gynal y cyfarfod yma o hyn allan. Profiad pawb yw mai hon oedd y gymanfa oreu yr ydym wedi ei chael eto. Yr oedd myn'd neillduol ar y canu. Nid ydym yn cofio clywed y fath ddadganiad rhagorol ar Eventide, ac fe gafwyd hwyl neillduol ar Haden—hen dôn o gynghaneddiad yr arweinydd. Dyma y tro cyntaf i Mr Richards fod yn ein plith, a gobeithiwn mai nid y tro olaf.—*B. M. P.*



UNDEB CANU CYNULLEIDFAOL

BETHLEHEM, GLANDWR, WATFORD, NANTGARW, BRONLLWYN, A'R GROESWEN.

CYNHELIR Y SEITHFED

Cymanfa Gerddorol

YN

BETHLEHEM, GWAELODYGARTH,

Dydd Gwener y Groglith, 1895.

ARWEINYDD:

MR. T. GLYNDWR RICHARDS, Pontycymmer.

CYFEILYDD:

*Mr. D. DAVIES, Groeswen.*

LLYWYDDION Y CYFARFODYDD:

Deg o'r gloch - Mr. R. ROBERTS, Pentyrch.

Dau o'r gloch - Mr. J. MILLWARD, Nantgarw.

Chwech o'r gloch - Mr. J. PETERS, Ffynon Taf.

*Cadeirydd y Pwyllgor* - Mr. ISAAC THOMAS, Nantgarw.

*Trysorydd* - Mr. WILLIAM THOMAS, Glan-y-llyn.

*Ysgrifennydd* - Mr. E. J. PHILLIPS, Gwaelodygarth.

BRITON FERRY:

ARGRAFFWYD GAN D. L. JONES (CYNALAW), VILLIERS STREET.

yn 1962, ac a fu'n arwain hefyd yn 1968 a 1974.

Mae ei enw ar Ddetholiad Cymanfa 1978 yn ogystal, gyda honno i'w chynnal ar y 24ain o Fawrth, ond bu farw ar y 1af o Fawrth.

**Merch ifanc o'r enw Miss Delyth Thomas,** a oedd eisoes wedi cynorthwyo i arwain un Rihyrsal, a gafodd y dasg o gamu i mewn ar fyr rybudd a thrwy hynny **yn dod yn Arweinydd benywaidd cyntaf yn hanes y Gymanfa.**

Mae Miss Thomas yn dal yn aelod ym Methlehem, ond fe'i hadnabyddwn yn well fel Mrs Delyth Evans, un o'r organyddion ac arweinydd answyddogol y gân yn ein plith ers degawdau! (A gwell ychwanegu mai Trysorydd y Capel, Peredur, yw ei gŵr!).

**Yn ôl a welaf, Lily Richards (1984), ac Elin Rhys (1996) yw'r unig ferched eraill a fu'n Arwain y Gymanfa ym Methlehem!**

**Fe ddathlwyd y100fed Gymanfa yn 1988,** ac fe gyhoeddwyd hanes cryno'r Gymanfa fel rhan o'r Detholiad arbennig a baratowyd bryd hynny.

## Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Ebrill 2026:

3 - Oedfa Gwener y Groglith dan ofal Ian Hughes [am 10:00 a.m.]
5 - Sul y Pasg: Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12 -Sul y Pasg Bach: Oedfa dan ofal Noa Evans
19 - Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John
26 - Oedfa dan ofal Gwilym Williams

Mis Mai 2026:

3 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 - Oedfa dan ofal y Parchedig Dyfrig Rees
17 - Oedfa dan ofal Thomas Williams
24 - Oedfa Ardal Cylch Radur
31 - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

# MENTER CAERDYDD

Rachel Matthews

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost / Ffôn:
post@mentercaerdydd.cymru
029 2068 9888

**Gweithgareddau Gwyliau'r Pasg**
Bydd y cynllun Gofal yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r Pasg yn ysgolion Treganna, Melin Gruffydd a'r Berllan Deg. Y gost yw £35 y dydd. Gall plant hefyd fwynhau ein sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, fydd yn rhedeg mewn 6 ysgol.

**Laffwyl**
Bydd Laffwyl yn dychwelyd i dafarn Parc Victoria, nos Iau 16 Ebrill, am y sesiwn olaf tan Tafwyl! Yn cadw cwmni i'r MC Aled Richards bydd y digrifwyr Steffan Evans, Eleri Morgan, Alis Hedd a Richard Elis. Mae'r tocynnau ar gael am £10 ar y wefan neu am £12 wrth y drws.

**Cofio Tryweryn yn Sain Ffagan**
Ceir cyfle unigryw i weld creiriau hanesyddol o bentref Capel Celyn a Chwm Tryweryn ar ymweliad â Sain Ffagan ar fore Mawrth, 21 Ebrill. Byddwn yn cael cwmni Gwyn, ynghyd â Phrif Guradur Hanes Cyfoes a Chymunedol Sain Ffagan, i glywed rhai o'r hanesion personol a chenedlaethol sydd ynghlwm â boddi'r cwm.

**Sgwrs y Mis - Synagogau Cymru: Pensaernïaeth a Hanes Cymdeithasol**
Mae hanes synagogau yng Nghymru yn ymestyn yn ôl dros fwy na 250 o flynyddoedd. Bydd y sgwrs hon, yng nghwmni Dr Cai Parry-Jones, yn codi ymwybyddiaeth am yr amrywiaeth o synagogau sydd yng Nghymru.
Nos Lun, 27 Ebrill ar Zoom. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am holl sgyrsiau 2026.

**Noson Meic Agored**
Mae CFTi wedi dechrau cynllun newydd yn ddiweddar i roi llwyfan i berfformwyr ifainc. Cynhelir y sesiwn nesaf ar nos Lun, 13 Ebrill yn 'Grassroots' rhwng 18:30 a 20:30. Mae'r nosweithiau'n rhoi cyfle i bawb rhwng 14 a 25 oed ddod i fwynhau bwyd am ddim a pher-fformio o flaen eu ffrindiau. Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â Swyddog Ieuenctid Menter Caerdydd erin@mentercaerdydd.cymru

**Cwrs Cymorth Cyntaf Brys**
Cynhelir cwrs hyfforddi undydd yn Yr Hen Lyfrgell, ddydd Gwener, 24 Ebrill, i'r rhai sydd am wella eu sgiliau cymorth cyntaf brys. Am fwy o fanylion am gynnwys y cwrs, cysylltwch â sian@mentercaerdydd.cymru

**Amser Stori**
Cofiwch fod y sesiynau i blant bach a'u teuluoedd yn cael eu cynnal yn ystod y tymor ysgol yn unig felly bydd **Amser Stori** yn dechrau 'nôl wythnos 13 Ebrill.

**Grwpiau sgwrsio yn yr Hybiau**
Mae'r *Heathcock Bakery & Deli* yn Llandaf yn awyddus i gynnig cartref i grŵp sgwrsio newydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu sesiwn Coffi a Chlonc, cysylltwch â rachel@mentercaerdydd.cymru .

**Hyb Llaneirwg** - bob yn ail fore Mawrth am 10.30 - 14 + 28 Ebrill

**Hyb Radyr** - bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 - 8 + 22 Ebrill

**Hyb Rhydypennau** - bob yn ail fore Iau am 10.30 - 9 + 23 Ebrill

**Hyb Rhiwbeina** - bore Gwener am 10.30 (Mynediad a Sylfaen) - 17 Ebrill (dim sesiwn yn ystod gwyliau'r ysgol)

**Hyb Y Llyfrgell Ganolog** - bob prynhawn Iau am 3.00.

**Cofiwch fod manylion am y grwpiau annibynnol eraill sy'n cwrdd o gwmpas y ddinas i'w gweld ar ein gwefan.**




# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Cynnyrch eiconig wedi'i israddio i gefn y silff?

Llun ar Facebook, gan aelod o grŵp pentref fy mhlentyndod, roddodd ysbrydoliaeth i mi ar gyfer erthygl y mis hwn. Ychwanegwyd sylw yma gyda'r llun *'Gwnaeth Nanny Worillow llawn bwced ar gyfer yr hanner amser i aelodau tîm pêl-droed y pentref'*. Y 'lluniaeth' oedd diod a wnaed o 'Camp Coffee', cynnyrch sydd wedi colli ei boblogrwydd ers tro byd ac bellach wedi'i israddio i gefn cwpwrdd yn y gegin ac eiliau coginio yr archfarch-nadoedd. Wn i ddim a gafodd unrhyw effaith ar lwyddiannau'r tîm yn y 1960au ond mae ganddo hanes diddorol.

Mae gallu 'gafael' mewn coffi cyflym ar unrhyw adeg yn ffenomen gymharol newydd. Am gannoedd o flynyddoedd roedd coffi yn anodd ei gael, yn ddrud, ac yn blasu'n ofnadwy. Yn ôl pob golwg, dyfeisiwyd coffi parod gyntaf ym 1890 yn Seland Newydd. Fodd bynnag, 14 mlynedd ynghynt cynhyrchwyd poteli o goffi parod hylifol yng Nglasgow. Cwmni Patersons & Sons, cynhyrchwyr finegr, sawsiau a chordialau, oedd yn gyfrifol am hyn. Cafodd y cwmni gais gan Uwchfrigadydd Syr Hector MacDonald, pennaeth y Gordon Highlanders, catrawd Albanaidd o Fyddin Prydain, i ddatrys problem. Roedd y broses o falu a bragu ffa coffi yn rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser i gegin maes milwrol ei baratoi yn ystod yr ymgyrchoedd yn India ar y pryd. Dyfeisiodd y cwmni gymysgedd o siwgr, sicori (25%) a choffi sych (4%) ellid ei gymysgu â dŵr i greu coffi parod.



Roedd yr hylif 'parod' a grëwyd yn caniatáu i gludo a darparu coffi yn symlach a chyfleus. Fe'i gelwid yn Camp Coffee gyda "Camp" yn cyfeirio at yr amgylchedd ymgyrch filwrol y cafodd ei gynllunio ar ei gyfer.

Roeddwn yn awyddus i ddarganfod pam y dewiswyd ychwanegu sicori i'r hylif. Wedi'i rostio mae gan y gwreiddyn sicori flas coediog, cneuog a phriddlyd ac yn cael ei ychwanegu i leihau chwerwder coffi. Roedd sicori eisoes yn amnewidyn coffi eang yn Ewrop a Gogledd America. Erbyn diwedd y 19eg ganrif, fe'i defnyddiwyd gan y Ffrancwyr ar ôl blocâd Napoleon ym 1808 a chan filwyr Cydffederal yn ystod Rhyfel Cartref America oherwydd prinder coffi.

Yn wreiddiol, roedd y llun ar label y botel yn darlunio Sikh yn cario hambwrdd o goffi i swyddog byddin oedd yn gwisgo cilt. Yng nghanol yr 20fed ganrif golygwyd y label gan ddileu'r hambwrdd i gael gwared ar oblygiad o gaethwasiaeth. Yn 2006 ailgynlluniwyd y label i ddarlunio cydraddoldeb wrth i'r ddau fwynhau cwpan o'r coffi wrth eistedd gyda'i gilydd.

Mae sylwadau ar Facebook yn dweud fod y coffi yn dal i gael ei fwynhau fel diod gan rai pobl, er fy mod i'n tybio ei fod ychydig yn debyg i 'Marmite'! Mae'r ryseitiau ar dudalen we Camp Coffee ar gyfer ei ddefnyddio fel blas mewn cacennau, pwdinau yn ogystal ag ar gyfer diodydd, a hefyd ar gyfer marinadau a rhwbiadau ar gyfer cig. Prynais y botel olaf ar y silff yn fy



*Gwraidd Sicori*

archfarchnad leol at ddiben 'ymchwil' ac rydw i wedi rhoi cynnig ar ychydig o syniadau. Pwdin Eidalaidd syml yw Affogato sy'n cyfuno sgŵp o hufen iâ fanila oer wedi'i "boddi" gyda espresso poeth.

Gweithiodd yn dda gyda'r coffi Camp wedi'i gymysgu â dŵr berwedig a'i dywallt dros hufen iâ caramel hallt Fablas a'i daenu â chnau. Mae rysáit myffins y Pasg yn cynnwys llugaeron sych wedi'u socian mewn coffi Camp. Defnyddiais grwst brau ar gyfer y darten sy'n cynnwys Camp a rhywfaint o bowdr coco, mae'r coffi hefyd yn y llenwad gyda chnau Ffrengig a phecans - i'w gweini gyda gellyg wedi'u potsio â darnau o sinsir mewn surop.
(Hapus iawn i rannu ryseitiau gyda unrhyw un sy â diddordeb).






# LLANTRISANT PONTYCLUN, MEISGYN, Y GROESFAEN

Gohebydd:
Dafydd Roberts

**Clychau Eglwys Llantrisant**

Yn gynnar ym mis Mawrth, roedd cyfle unigryw i weld clychau Eglwys Llantrisant. Cafodd y clychau eu tynnu i lawr ar gyfer gwaith cynnal a chadw, gan roi cyfle i'r gymuned eu gweld ar y ddaear. Roedd angen atgyweirio'r clychau a'r strwythur pren oedd yn eu dal. Ychwanegwyd dwy gloch newydd hefyd, gan olygu bod deg cloch i gyd bellach.



*Clychau Eglwys Llantrisant*

**Capten Cymru**

Cafodd Alfie Prygodzicz o Lantrisant ei gêm gyntaf fel capten Cymru dan 18 oed yn ddiweddar - carreg filltir arbennig i'r cyn-ddisgybl o Ysgol Llantrisant a Llanhari, sydd bellach yn astudio yn Ysgol Glantaf. Chwaraewyd y gêm yn Ystrad Mynach ar ddydd Sadwrn 14 Mawrth, gyda'r gwrthwynebwyr yn dod o'r Eidal. Er i Gymru frwydro'n galed, daeth y gêm i ben gyda sgôr o 12–19 o blaid yr Eidal. Mae'r dref yn hynod falch o'i lwyddiant, ac yn dymuno pob lwc iddo yn y gemau sydd i ddod.

**Cinio Elusen RR 81**

Cynhaliwyd Cinio Elusennol RR81 ar nos Wener 20 Mawrth yn y Vale Hotel, digwyddiad sy'n cael ei drefnu bob dwy flynedd er cof am Rhys Rubery, cyn-ddisgybl Ysgol Llanhari a fu farw mewn damwain ffordd dros ddegawd yn ôl. Mae'r elusen yn defnyddio'r arian a godir i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau ieuenctid yn yr ardal. Eleni, bu Côr Seren a Chôr Tadau Trisant yn perfformio.



*Teulu Davies gyda'r Harmonium*

**Paned Gymraeg Neuadd y Dre Llantrisant**

Mae Neuadd y Dre Llantrisant bellach yn cynnal digwyddiad cymunedol wythnosol newydd o'r enw Paned a Pharod i Siarad. Mae'r bore coffi anffurfiol hwn wedi'i greu'n arbennig ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, er mwyn ymarfer sgwrsio mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar. Ewch draw am baned a sgwrs pob dydd Sadwrn o 10:30yb i 12:30 yp.




**Harmoniwm o'r Gorllewin**

Cafodd harmoniwm, dros 130 mlwydd oed o Gapel Soar y Mynydd ger Tregaron, ei chwarae mewn gwasanaeth am y tro cyntaf ers blynyddoedd, pan gafodd ei ddefnyddio yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf ym mis Mawrth. Cafodd ei chwarae gan Briallen Davies, wyres i'r diweddar Beryl Davies oedd yn organyddes yn Soar. Daeth mab Beryl, Eurfyl, sy'n byw yn Llantrisant erbyn hyn, â'r harmoniwm i'w arddangos.

**Merched y Wawr Tonysguboriau**

Mi fydd cyfarfod nesaf y merched ar nos Fercher, Ebrill 15fed am 4:30, lle bydd criw o blant Ysgol Llanhari yn rhoi adloniant. Maent yn cwrdd yn "Cafe50" Pontyclun. Croeso i bawb ymuno, aelodau ac eraill.

# Ysgol Llanhari

**Eisteddfod Ysgol**
Mor hyfryd oedd hi i gael pawb at ei gilydd yn neuaddau'r ysgol ar gyfer diwrnodau Eisteddfod. Roedd y bwrlwm yn amlwg ymysg y disgyblion a nifer fawr yn awyddus iawn i berfformio. Llongyfarchiadau gwresog i Gwenno am ennill cadair CA4 a CA5, ac i Ella am ennill cadair CA3. Llongyfarchiadau mawr i lys Aran yn yr adran uwchradd a fu'n fuddugol am y tro cyntaf ers 10 mlynedd! Ac am y tro cyntaf yn yr adran gynradd, bu dau lys yn fuddugol gyda'r un nifer o bwyntiau! Llongyfarchiadau i bawb. Hyfryd unwaith eto oedd croesawu cyn aelodau o staff i feirniadu ar ddiwrnod yr Eisteddfod yr adran uwchradd. Diolch i Mrs Emma Goodridge, Mr Colin Pari a Mrs Carys Lewis a diolch i Mr Lloyd Owens am feirniadu Eisteddfod Hwyl yr adran gynradd. Diolch yn fawr i'r disgyblion am gystadlu, eu hymddygiad ardderchog a'r cystadlu brwd. Diolch hefyd i'r athrawon am hyfforddi ac i'r beirniaid am gyfrannu at ddiwrnod arbennig.

**Cwis Dim Clem**
Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 a fu'n cystadlu yng nghwis Dim Clem Menter Iaith yn ddiweddar. Llwyddon nhw i ateb pob math o gwestiynau! Roedd hi'n gystadleuaeth agos tu hwnt!! Llongyfarchiadau mawr i'r tîm.




*ChwaraeonYsgol Llanhari*

**Taith Sgïo**
Teithiodd disgyblion hŷn yr ysgol ynghyd ag wyth aelod o staff i Grandvalira, Andorra i sgïo yn ystod hanner tymor Chwefror. Cawsant amser gwych ar y llethrau yn ymarfer eu sgiliau, yn ogystal â digonedd o amser i gymdeithasu a chwerthin gyda'i gilydd! Am brofiad bythgofiadwy i'n disgyblion. Diolch i bawb am yr holl drefniadau.

**Diwrnod y Llyfr**
Roedd Diwrnod y Llyfr yn gyfle i ni fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a gemau darllen. Daeth y plant a'r staff i'r ysgol wedi gwisgo'n lliwgar dros ben, llawer fel eu hoff gymeriadau o lyfrau. Roedd pawb yn edrych yn wych a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto.

**Siop Sul y Mamau**
Diolch i Ffrindiau Llanhari am gynnal Siop Sul y Mamau eto eleni. Gobeithio fod pawb wrth eu bodd gyda dewisiadau'r plant.

**Taith Blwyddyn 8**
Bu disgyblion blwyddyn 8 ar daith wych yn ddiweddar i weithdy Tîm Williams Fformiwla 1. Cawsant gyfle i weld y ceir anhygoel ac i gwblhau gweithgareddau STEM. Am ddiwrnod i'w gofio!

**Chwaraeon**
Mae'r disgyblion wedi bod yn ffodus iawn i gael amrywiaeth o gyfleoedd i gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon yn ddiweddar, o rygbi i bêl-rwyd. Maent wedi bod yn llwyddiannus ac yn edrych ymlaen at fwy o gystadlaethau yn nhymor yr haf.



*Eisteddfod Ysgol Llanhari*



*Sgïo Ysgol Llanhari*

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Gwersyll yr Urdd Glan-llyn**
Aeth plant blwyddyn 6 ar gwrs preswyl i Wersyll yr Urdd Glan-llyn am 4 noson. Cawson nhw amser bendigedig, er gwaethaf y tywydd oer.

**Cracio'r Pasg**
Cafodd dosbarth Blodeuwedd wahoddiad i Eglwys y Bedyddwyr Temple i weithdy 'Cracio'r Pasg' gyda Mr Colman. Diolch am ein dysgu ni am y Pasg mewn ffordd ddiddorol a difyr.

**Yr Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch eleni. Cafodd y plant gyfle i rannu eu talentau a mynegi eu hunain wrth adrodd, canu a dawnsio. Rydyn ni'n falch iawn o bob un ohonoch.

**Pêl-rwyd yr Urdd**
Dangosodd garfan bêl-rwyd yr ysgol ymdrech arbennig yng nghystadleuaeth bêl-rwyd Yr Urdd. Braf gweld pawb yn cael cyfle i chwarae yn gystadleuol. Llongyfarchiadau i'r tîm melyn am gyrraedd rownd yr wyth olaf.



*Cerdyn Coch i Hiliaeth*

**Diwrnod Diogelwch ar y We**
Cynhaliwyd 'Diwrnod Diogelwch ar y We' yn yr ysgol a gosododd yr Arweinwyr Digidol her i'r ysgol, sef i geisio creu poster i hyrwyddo'r ffyrdd gorau o gadw'n ddiogel ar lein.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Cafwyd llawer o hwyl yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol. Gwisgodd pawb eu gwisgoedd traddodiadol neu rywbeth coch i ddathlu. Hoffen ni hefyd ddiolch i'r holl blant a'u teuluoedd a ymunodd â ni ym Mharc Ynysangharad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch yn arbennig i'r grŵp o blant a ganodd ar ran yr ysgol, ac fel rhan o Gôr y Clwstwr.



*Dydd Gŵyl Dewi*

**Y Senedd**
Aeth Senedd yr ysgol ar ymweliad i'r Senedd yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am y ffordd mae'n gweithio a'r hyn mae'n ei wneud i ni fel gwlad. Cawson nhw hufen iâ cyn eu hymweliad pwysig. Am gyfle penigamp!

**Rygbi'r Urdd**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol am gystadlu'n wych yng nghystadleuaeth 10 bob ochr Rygbi Ysgolion Pontypridd. Hoffen ni eu canmol nhw am eu hymroddiad a'u hymdrech wrth gystadlu yn erbyn nifer o dimau cryf iawn. Da iawn chi!

**Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Diolch i Roxanne o elusen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth am ei gweithdy'r tymor yma. Roedd plant blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau'n fawr ac wedi gallu trafod nifer o bynciau yn aeddfed iawn!

**Gwersi BSL**
Mae nifer o ddosbarthiadau wedi bod yn derbyn gwersi Iaith Arwyddion Prydain (BSL) y tymor yma. Rhaid canmol ymdrech y plant wrth geisio dysgu ffordd newydd o gyfathrebu. Da iawn chi.

Ar Orffennaf 4ydd, cynhelir ail Eisteddfod Pontypridd. Diolchwn i'r nifer fawr o bobl fu'n noddi cystadlaethau yn 2025, gan obeithio y bydd nifer dda yn hapus i noddi unwaith eto yn 2026.

Croesewir nawdd er mwyn gwobrwyo'n cystadleuwyr gorau. Gallwch wneud taliad uniongyrchol o £30 neu fwy i gyfrif Eisteddfod Pontypridd, côd didoli 30-54-66 a rhif y cyfrif 70632660.

Plîs gyrrwch neges at y Trysorydd ar geraintrees@hotmail.com neu 07816341527 i nodi eich taliad, a pha fath o gystadleuaeth yr hoffech ei noddi.

Diolch yn fawr iawn

Mae rhestr lawn testunau'r gwaith cartref yn rhifyn mis Chwefror o'r Tafod ac hefyd ar wefan Eisteddfod Pontypridd:
https://sites.google.com/hwbcymru.net/eisteddfod-pontypridd/rhestr-testunau

Mae cystadlaethau penodol i blant a phobl ifanc ac i ddysgwyr, cystadlaethau agored, a chystadlaethau celf hefyd.
Y dyddiad cau ydy 23ain Mai, felly does dim llawer o amser ar ôl.

I'ch ysbrydoli chi i fynd ati i gyfansoddi, dyma waith ambell enillydd o Eisteddfod Pontypridd 2025.

**Englyn: Cam** gan Tomos Rees
Ei hosgo sy'n betrusgar- a'i bale'n
Ebolaidd a phwyllgar.
Yn wan, fe syrthia'n gynnar,
Ond i Dad, mae'n Superstar.

**Triban: Tri Chynnig i Gymro** gan Menna Thomas
Tri chynnig, hyn a lwydda
Wel dyna'r goel, ontifa?
Cei lai o drafferth, creda fi,
Os llwyddi di'r tro cynta'!

**Limrig** gan Lynwen John
Daeth Steddfod i'r fro unwaith eto
Ond a fydd 'na rywun yn mentro
I sgwennu dramaaaaa
'Mond i Betsan ddweud 'NAAAA'?
Sai'n credu bo fi'n mynd i foddro!!!

Mae mwy o weithiau buddugol ar y wefan, gan gynnwys stori fer Ifan Roberts, Canu'n Iach.

Mae llu o gystadlaethau llwyfan ar gyfer pob oed hefyd, wrth gwrs, yn ogystal â Brwydr y Bandiau. Mae'r holl fanylion ar wefan yr Eisteddfod. Y dyddiad cau i gofrestru ydy 12 Mehefin.

Ewch amdani!



# Pwy wyt ti?



*Bethan Davies*

**Cyflwyna dy hun mewn pum brawddeg.**
1. Ces i fy magu ym Mhen-tyrch a dw i'n byw yno nawr.
2. Pan o'n i yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Radur, gwyliais i'r gyfres deledu *Pen Talar*. Dyna sut dysgais i am hanes y Gymraeg. Ar ôl i fi wylio'r gyfres, penderfynais astudio'r Gymraeg yn y Brifysgol.
3. Tiwtor Cymraeg dw i. Dw i'n dysgu'r Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru - Dysgu Cymraeg Morgannwg.
4. Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi canu. Pan o'n i yn fy arddegau, ro'n i'n aelod o'r corau ieuenctid yng Nghaerdydd. Ro'n i'n ffodus iawn i fod yn aelod o Gôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru am gwpl o flynyddoedd. Uchafbwynt y canu oedd canu gyda fy mam, fy nhad a'm brawd yn Neuadd Albert yn y Bernstein Mass. Nawr, rwy'n canu gyda Chantorion Ardwyn a dw i wrth fy modd.
5. Rwy'n aelod o gampfa yng ngwesty'r Vale. Dw i'n hoffi cwrdd â ffrindiau yno bob wythnos er mwyn mynychu dosbarthiadau.

**Ble a sut wyt ti'n defnyddio ddefnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**
'Dyn ni'n ffodus iawn ym Mhen-tyrch; mae llawer o gymdogion a ffrindiau gyda ni sy'n siarad Cymraeg. Rwy'n mynd i gyngherddau a digwyddiadau Cymraeg yn *Acapela* ac yn mynychu digwyddiadau gyda *Chlwb y Dwrlyn* a *Chylch Cadwgan*. Dw i eisiau rhoi'r cyfleoedd dw i wedi eu cael i ddysgwyr Cymraeg, felly, dw i wedi dechrau *'Siawns am Sgwrs'* yn nhafarn y Lewis Arms bob nos Fercher. Mae dysgwyr a siaradwyr yn dod ynghyd i sgwrsio yn Gymraeg. Mae dysgwyr yn elwa'n fawr o'r cyfle ac maen nhw wrth eu bodd yn cwrdd bob wythnos.

**A ble arall bydd pobl yn ffeindio Bethan Davies yn yr ardal?**
Dw i wrth fy modd yn cerdded o gwmpas y pentref. Efallai y byddwch chi'n fy ngweld ar ffordd Ty'n y Coed neu'n mynd i fyny mynydd y Garth - dewch draw am sgwrs os byddwch chi'n fy ngweld.

**Pa gyngor faset ti'n ei roi i siaradwyr Cymraeg newydd yn yr ardal?**
Ewch i *Acapela* a dewch draw i'r *Lewis Arms* ar nos Fercher i sgwrsio yn Gymraeg.